

# Y DINESYDD

Ebrill 2018 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 426 £1



Gweler tud. 11




## DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD 2018

## DINESYDD ARBENNIG YR EISTEDDFOD

Testun dathlu yw bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gaerdydd ym mis Awst.

**Bydd rhifyn arbennig o'r Dinesydd yn cael ei gyhoeddi er mwyn dangos a dathlu'r bwrlwm o Gymreictod sy'n rhan o fywyd y Brifddinas a'r Fro.**

Bydd y rhifyn ar gael yn rhad ac am ddim, fe gaiff ei ddosbarthu'n eang, a bydd y cynnwys, gobeithio, o ddiddordeb nid yn unig i'n darllenwyr arferol ond hefyd i ymwelwyr – ac i lu o ddarllenwyr newydd.

***

Beth hoffech chi ei weld yn y rhifyn cyffrous hwn? Estynnir gwahoddiad i'n darllenwyr awgrymu pynciau neu storïau i'r tîm golygyddol fynd ar eu hôl.

Y gobaith yw cael digon o nawdd trwy hysbysebion i glirio'r gost. Felly, os gwyddoch am rywun fyddai'n dymuno manteisio ar y cyfle arbennig hwn, cysylltwch â ni.

Croeso i chi anfon negeseuon i'r cyfeiriad hwn: db.james@ntlworld.com

*Bryan James, ar ran Pwyllgor y Dinesydd*

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hefin Mathias**

***Golygydd Mai:***
***Ioan Kidd***

Cyfraniadau erbyn 27 Ebrill i:
ioankidd@hotmail.com
3 Ceiriog Drive, Pantmawr,
Caerdydd, CF14 7TU
029 2065 7665

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774816209

Tanysgrifiadau i:
Jöel D'Auria
joel.dauria@gmail.com
53 Melrose Avenue, Penylan,
Caerdydd, CF23 9AT
07540057783

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd.
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru


## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Gwersi Cymraeg i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghaerdydd



Mae Ysgol y Gymraeg, mewn partneriaeth â Chyngor Ffoaduriaid Cymru, ar fin lansio cynllun arloesol i roi gwersi Cymraeg i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghaerdydd. Bydd y tiwtoriaid yn cydweithio gyda sefydliadau eraill yn y maes megis Oasis a Chanolfan y Drindod. Rydym yn dra awyddus i alluogi'r dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, drwy gwrdd â dysgwyr eraill a siaradwyr iaith gyntaf yn y gymuned. Mae canran sylweddol ohonynt yn bobl broffesiynol; er enghraifft, rhai sydd yn gweithio yn y maes iechyd fel doctoriaid, nyrsys a deintyddion, a hoffai weithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol rywbryd yn y dyfodol. Bydd sgiliau Cymraeg yn help mawr iddyn nhw chwilio am waith ac yn fwy na thebyg bydd gynnyn nhw gleifion sydd eisiau cyfathrebu yn Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, mae gan rai o ffoaduriaid a cheiswyr lloches blant sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Gallai'r cynllun fod yn fodd o gymell eu cymheiriaid i ddewis addysg Gymraeg ar gyfer eu plant nhw hefyd. Rydym yn anelu at wneud rhywbeth gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n dysgu Cymraeg yn Tafwyl ac yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd eleni - cyfleoedd gwych i ymarfer eu sgiliau Cymraeg, cwrdd â mwy o siaradwyr Cymraeg a phrofi diwylliant Cymraeg.

Nid yw'r niferoedd o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn debyg o leihau yn y dyfodol; felly mae'n rhaid cynllunio'n strategol ar gyfer y ffoaduriaid a cheiswyr lloches a fydd yn dod i'r ddinas dros y blynyddoedd nesaf.

Matt Spry
Tiwtor Drefnydd – Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
SpryM@caerdydd.ac.uk
+44 (0)29 2087 4710

---

**SYLWER: Dyddiad Gŵyl Fach y Fro yw dydd Sadwrn, 16 Mehefin 2018. Yn anffodus cyhoeddwyd y dyddiad anghywir yn rhifyn Mawrth.**

## Adeiladu storfa o syniadau a deunyddiau i'w defnyddio yn ein cymunedau –

## Pecyn Cymunedau Byw

Annwyl Ddarllenwr,

Os ydych chi eisiau cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cymuned, bydd diddordeb gennych mewn pecyn newydd, sydd â'r nod o ddefnyddio'r brwdfrydedd sydd yno eisoes!

Mae'r pecyn yn storfa o syniadau ymarferol i weithredu o fewn cymunedau. Mae'n cynnwys enghreifftiau a chanllawiau, ond y prif amcan yw ei ddefnyddio i gychwyn trafodaeth gydag unigolion, busnesau, grwpiau neu gymdeithasau o fewn cymunedau lleol i wneud gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar sut allai pobl fynd ati i agor y drws i ddysgwyr fel cyfranwyr gwerthfawr i'n hiaith a'n diwylliant.

Mae llawer iawn o waith da yn digwydd yn barod yn ein cymunedau. Yr hyn rydyn ni wedi ceisio ei wneud yw dod â rhai o'r adnoddau ynghyd er mwyn galluogi mwy o bethau ymarferol i ddigwydd yn ein cymunedau. Rydyn ni wedi ceisio rhwydo'r syniadau a'r brwdfrydedd sydd allan yno, a chynnwys awgrymiadau i bobl eu defnyddio.

Wrth gyflwyno'r pecyn yma y gobaith yw darganfod 'sbardunwyr' cymunedol fydd yn gallu mynd i'r afael â'r gwaith hollbwysig yma i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw, i'w gweld a'i chlywed yn eich cymuned.


Diolch am gefnogaeth parod Huw Llewelyn Davies, Rhys Mwyn a Sharon Morgan a phawb arall sydd wedi cyfrannu at baratoi cwis sy'n cydfynd gyda lansiad y pecyn. Mae posib llawrlwytho'r cwis a'r pecyn neu dderbyn copi caled drwy'r post.

Gallech weld y pecyn trwy fynd i http://cymdiethas.cymru/pecyn, neu os oes unrhyw un eisiau cyfrannu syniadau at y pecyn neu wybod mwy, mae croeso iddyn nhw gysylltu â ni ar nia@cymdeithas.cymru neu post@cymdeithas.cymru neu ffonio 01970 624501.

Cofion cynnes,
*Nia Llywelyn*
Swyddog Cymunedau Byw, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

***Robin Farrar***
Ysgrifennydd Cyffredinol, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth SY23 2AZ
01970 624501 / 07717 102923
cymdeithas.cymru
@cymdeithas
facebook.com/cymdeithas

---




## O'r Silff Lyfrau

### Cofio Hedd Wyn

**Atgofion Cyfeillion a Detholiad o'i Gerddi gan Robin Gwyndaf**

Dyma newyddion da i bawb o ddarllenwyr *Y Dinesydd* a fu'n holi am y gyfrol *Cofio Hedd Wyn*: y mae'r ail argraffiad ar gael yn awr yn y siopau.

Meddai Alan Llwyd am yr argraffiad cyntaf (Gorffennaf 2017):
'*Llyfr gwych, llyfr rhyfeddol o hardd. Cefais flas mawr arno. Byddaf yn trysori hwn am byth.*'

Meddai Pedr ap Llwyd yntau:
'*Mae'n odidog o ran ei gynnwys a'i ddiwyg.*'

407 tudalen a 160 o luniau.
Gwasg Y Lolfa.
Pris: £14.99.

# Cwmni'r Dysgwyr



## Gwilym Dafydd



*Rhai o ddysgwyr Menter Caerdydd yn Yr Hen Lyfrgell*

**Dysgwyr Canolfan Capel Ararat Yr Eglwys Newydd**

Roedd 10 dysgwr yno gan gynnwys un dyn dewr, Brian, a 9 gwraig ac o leiaf tair ohonynt o'r enw Jean! Jean Rhiwbeina, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais. Gwerthais saith copi o'r Dinesydd – ymweliad byr ond buddiol!

**Bore Coffi Eglwys Dewi Sant**

Y bore Sadwrn canlynol cynhaliwyd coffi a chlonc misol yn neuadd Eglwys Dewi Sant, rhyw ddwsin a hanner yno ar fore hynod oer. Pwy ddaeth mewn ond Joe Mitchell, Bow Street, Aberystwyth sy'n siarad pump iaith a chopïau o'i eiriadur Cymraeg – Gwyddeleg newydd £14.99. Treuliodd Joe 30 mlynedd yn gweithio ar hwn – dalifyndrwydd!

**Matt Spry**

Dim ond ers llai na 3 blynedd mae Matt, gynt o Plymouth wedi bod yn dysgu Cymraeg. Nawr mae'n diwtor / trefnydd yng Nghanolfan Gymraeg y Brifysgol. GWYCH!

**Papur Bro Cwmni yn dathlu'r 200**

A dros y mynydd aethon ni nos Wener, 9 Mawrth i hen Ysbyty'r Glowyr Caerffili. Noson hwyliog i ddathlu 200fed rhifyn papur bro Cwm Rhymni. Cafwyd sgyrsiau diddorol gan Ben Jones, golygydd, Sioned Williams a'r Parch Denzil John, golygydd y papur yn ystod y blynyddoedd cynnar. Ann Lewis, athrawes Gymraeg bellach wedi ymddeol, gynt yn Ysgol Martin Sant, sy'n gyfrifol am dudalen Dysgwyr papur Cwmni ers sawl blwyddyn.

**Amser Joc gyda Huw James, Llanisien**

Mae Huw yn awdur llyfr jocs Saesneg am Gardis Ceredigion. £3.95 Gwasg Y Lolfa. Mae'r jocs am *Ianto goes Courting* a *Sex on a Sunday* ac eraill mor ddoniol. Dyma un arall - 'dau Gymro ar ynys anghyfannedd; beth ydy'r peth cyntaf mae'n nhw'n gwneud? Ffurfio pwyllgor!' Ewch i chwilota am y llyfr a cheisiwch gyfieithu jocs Huw i'r Gymraeg.

**Gair gan Nannon Evans, Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg, Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

Eleni bydd dysgwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt yn heidio i un o adeiladau mwyaf eiconig y Bae, Y Pierhead i gymdeithasu, cystadlu, ac yn bennaf oll, i gael hwyl! O dan enw newydd '**Shwmae Caerdydd**' bydd cyfle i fwynhau llu o weithgareddau fel gweithdai celf i blant, Y Cwis Mawr a sgyrsiau am bob mathau o bethau difyr i ddysgwyr. Mae rhywbeth yma at ddant pawb, felly dewch yn llu i ddathlu a phrofi'r Gymraeg! Cofiwch fod dyddiad cau ein Cystadlaethau Perfformio ar 1 Mai. I weld rhestr o'r cystadlaethau hynny, ewch i'n gwefan eisteddfod.cymru.

**Noson i Ddysgwyr, nos Fercher, 11 Ebrill**

Unwaith y flwyddyn mae cangen Merched y Wawr Bro Radur yn trefnu noson lle mae croeso cynnes i ddysgwyr gwrywaidd hefyd! Eirian Dafydd fydd yng ngofal cwis eleni yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Radur, Heol Isaf, 7.30.

**Diweddglo**

Oes gyda chi joc cystal neu well na Huw! Anfonwch air i eirianagwilym@gmail.com Sut mae dweud diolch yn fawr mewn Gwyddeleg Joe?



*Denzil John, Ann Lewis, Gwilym Dafydd a Ben Jones*

# EISTEDDFOD CAERDYDD

## Cyrraedd y nod. Ond mae'r gwaith yn parhau.

Roedd achos dathlu ym Mhwyllgor Penylan, Cyncoed, y Rhath a Cathays wrth i ni basio'r nod ariannol o £35,000 yn ddiweddar. Peth da, felly, bod rhan o'r llwyddiant hwnnw i'w briodoli i boblogrwydd ein Siampên Eisteddfodol! Yn sicr, mae'r Pwyllgor yn ymfalchïo yn y ffordd mae'r ardal wedi dod ynghyd i ddangos eu cefnogaeth.

I adlewyrchu hyn, dewiswyd *Cariad@Iaith* fel thema ein cinio Santes Dwynwen, a daeth dros 220 o bobl ynghyd yn yr Hilton, yn gymysgedd o siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg i ddathlu pwysigrwydd yr iaith ym myd busnes a gwaith yn y Brifddinas. Profodd trafodaeth panel rhwng Ashok Ahir, Steve Dimmick, Lara Pinney ac Ian Gwyn Hughes yn fodd i sbarduno nifer yn yr ystafell i ystyried o'r newydd bwysigrwydd defnyddio'r iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Defnyddio'r Gymraeg – nid aros am berffeithrwydd cyn dechrau ei defnyddio oedd un o'r prif negeseuon. Ac roedd perfformiad a geiriau ysbrydoledig Mike Peters yn fodd i ategu hyn. A gydag ocsiwn hynod lwyddiannus dan arweiniad Arfon Haines Davies, gwelwyd elw'r noson yn croesi £11,000. Gwerth yr ymdrech yn wir.

Er y llwyddiant, parhau y mae'r gwaith. Credwn fod rôl arbennig gan bwyllgor lleol wrth ymgysylltu â thrigolion a busnesau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o ddyfodiad yr Eisteddfod. Bydd hyn yn gyfrwng i sicrhau y bydd gwaddol ar ôl yr Ŵyl. Mae rhaglen o weithgareddau eto i ddod gennym, yn cynnwys cwis, noson gyri, diwrnod o hwyl teuluol a llawer rhagor, gan gynnwys cinio mawreddog ar gyfer cyfreithwyr y ddinas ym mis Ebrill.

Dilynwch ni ar @ApelPCRhC er mwyn cadw mewn cysylltiad.

---

# ADDYSG GYMRAEG – YR YSGOLION UWCHRADD 2018/19

Ni fydd y wybodaeth am fynediad i'r ysgolion cynradd ar gael tan Ebrill 16eg ond mae'r sir wedi gwneud y cynigion cyntaf ar gyfer mynediad i'r ysgolion uwchradd. Mae 560 lle wedi'u cynnig sef 9 yn fwy na'r llynedd, 229 yng Nglantaf, 180 ym Mhlasmawr a 151 ym Mro Edern. Dim ond ym Mhlasmawr oedd y galw yn uwch na'r ddarpariaeth a nid wyf yn gwybod tynged y rhai a wrthodwyd na'u nifer chwaith.

Mae'r cyfanswm o 560 yn agos i'r disgwyl sef 95% y plant sydd ym Mlwyddyn 6 yr ysgolion cynradd. Bydd yr un canran o'r disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn debyg o olygu 615 yn ceisio lle yn ysgolion uwchradd Cymraeg Fedi 2019 sef 15 yn fwy na'r 600 lle sy ar gael yn swyddogol. Disgwylir i'r sir ganiatau mynediad yn uwch na'r ffigwr swyddogol am fod lleoedd gwag yng Nglantaf a Bro Edern fel canlyniad i fynediadau llai na 240 a 180 yn y blynyddoedd ers agor Bro Edern yn 2012.

Serch hynny, fe fydd y galw yn cynyddu'n sylweddol bob blwyddyn o 2020 ymlaen a fe fydd angen naill ai pedwaredd ysgol uwchradd neu helaethu'r 3 ysgol bresennol yn fuan ac yn sicr cyn y dyddiad dechrau cynllunio a awgrymwyd gan y cyfarwyddwr addysg sef 2025. Mae pwyso o gyfeiriad Eluned Morgan, y gweinidog dros addysg Gymraeg, wedi gorfodi'r Ddinas i newid ei Chynllun Strategol Addysg Gymraeg (2017-2020) i gynnwys addewid i baratoi yn fuan cynllun i helaethu addysg uwchradd Gymraeg i ddigwydd yn y flwyddyn 2022/23. Roedd angen dechrau paratoi cynllun yn 2018 i sicrhau gweithredu yn 2022 am fod eisiau 4 blynedd i fynd trwy'r holl brosesau sy ynghlwm â'r fath prosiect - darganfod safle/safleoedd, ymgynghori ar y newidiadau, cynllunio'r adeiladau newydd, sicrhau caniatâd cynllunio ac, wrth gwrs, trefnu'r arian sylweddol sydd ei eisiau.

*Michael Jones*

---

## WEDI TANYSGRIFIO?

Gobeithio eich bod yn dymuno parhau i dderbyn y Dinesydd am y flwyddyn 2018-2019. Roedd ffurflen danysgrifio yn rhifyn mis Mawrth – ond hawdd iawn anghofio!

Os nad oes ffurflen gyda chi fe allwch anfon y tanysgrifiad at Joel D'Auria, 53 Melrose Avenue, Penylan, Caerdydd, CF23 9AT.

[£10 fel arfer neu £15 drwy'r post / dosbarthwr personol.]

Diolch am eich cefnogaeth..



# Pobol y Rhigwm

Croeso eto i gornel Pobol y Rhigwm, cornel o'r papur bro ar gyfer anoraciaid yr acen. Fel y bydd pawb yn cofio, y gystadleuaeth a osodwyd y tro diwetha' (tasg 12) oedd pennill croeso i'r Eisteddfod. Rhag ofn bod ambell ddarllenydd wedi bod yn byw mewn ogof feudwyaidd ers dwy flynedd, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gaerdydd eleni. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond ni ellir eu cynnwys yma oherwydd prinder gofod. Bydd rhaid ystyried cyhoeddi cyfrol o'r cerddi nas cyhoeddwyd ymhen ychydig. Ta waeth, dyma'r pennill buddugol, sef eiddo Dimweli. Cafwyd defnydd beiddgar o odlau anarferol, a chwarae blaengar â mydr pennill. Eiddo **Dimweli** yw'r wobr hael a ddyfernir y tro hwn.

**Enillydd tasg rhif 12 yw**
**Val Scott, Yr Eglwys Newydd**

## Pennill croeso i'r Eisteddfod

O dewch yn llu i Fae Caerdydd.
Cewch groeso cynnes yno.
Eisteddfod ar ei newydd wedd –
Dim Maes, dim mwd i'ch sugno.
Canolfan y Mileniwm
Yn cynnal y Pafiliwn.
Y Senedd – cymdeithasau
Ac arddangosfa medrau.
Cadw'r traddodiad 'Steddfodol.
Herio'r trefniadau arferol.

**Y dasg y tro nesaf (tasg 14) yw llunio llinell o gynghanedd. Caiff fod yn unrhyw fath o gynghanedd, ond rhaid cynnwys y gair Dinas neu Dinesydd neu Tref.**
Fel arfer, anfonwch eich cynigion at db.james@ntlworld.com erbyn **10 Mai**.
Barn y beirniad a saif!

---

# Datganiad y wasg

Mae Teimlo Llais yn arddangosfa gyffyrddadwy sy'n defnyddio sain llais merched yng Nghymru. Cynhelir yr arddangosfa o Ebrill 19eg (y noson agored yw nos Fercher 18fed Ebrill rhwng 6 a 8yh) tan 5ed Mai. Bydd ar agor ar ddydd Mercher tan ddydd Sadwrn rhwng 12.30 a 5.30 pm yn oriel gyfoes Arcêd Caerdydd yn Arcêd y Frenhines yng Nghaerdydd.

Tarddodd yr arddangosfa o brosiect ymchwil i ddatblygu Llais Menywod. Mae Penny D Jones a Gemma Green-Hope wedi recordio sgyrsiau menywod Cymraeg yn trafod y pynciau sy'n bwysig iddyn nhw. Er mwyn cyflwyno'r prosiect, penderfynodd Penny a Gemma ddefnyddio gwrthrychau i roi sain o'r sgyrsiau ar waith. Dau beth a ddaeth yn glir yn y sgyrsiau hyn oedd ei bod hi'n bwysig iawn i wneud llais merched Cymraeg yn hysbys i bawb.

Awgrymodd eu mentor y byddai'r gwaith yn addas i ddeillion a phobl sydd â nam golwg. Ar ôl cysylltu â UCAN, gweithredodd Mared arno. Creodd Mared a Gemma gwestiynau i holi barn menywod Cymraeg am bwysigrwydd eu llais. Mae llawer o fenywod wedi ymateb trwy gysylltu â Mared, yn ystod y cyfnod pan mae Penny a Gemma ar gael yn Oriel y Parc Tyddewi, ac mae Penny wedi recordio menywod yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal â menywod eraill sydd â diddordeb. Mae Penny wedi gwnïo'r clytwaith gyda gwahanol weadau, a hynny er mwynhau trwy gyffyrddiad. Bydd edau drydanol yn cael ei wnïo yn y clytwaith er mwyn rhoi anogaeth i leisiau'r menywod wrth ateb y cwestiynau. Bu'r clytwaith teimladwy hyn yn fodd o greu un arall, sef un bychan mewn cerameg sydd hefyd yn ymateb i sylwadau'r merched. Mae rhai menywod wedi creu'r teils, gan gynnwys Sally Richmond, Ruth Sargeant a Bev Bell-Hughes.

*Penny D Jones*
*07789 622420*
*penicelf65@outlook.com*



**EWYLLYSIAU**

**Os hoffech chi wneud eich ewyllys yn y Gymraeg, cysylltwch â Ruth Jones LL.B. ar**

**ruthcjones25@aol.com**

# Merched y Wawr Caerdydd

Roedd y neuadd wedi'i haddurno'n hardd yn lliwiau'r gwanwyn ar gyfer dathliad Gŵyl Dewi'r gangen ar 13 Mawrth, a'r byrddau bychain yn dal potiau tlws o gennin Pedr.



Croesawyd yr aelodau i fwynhau pice bach blasus ac arlwy o gerddoriaeth y delyn yn ogystal â chyfraniadau cerddorol a llafar yr aelodau. Lowri Clement oedd y delynores ddawnus a gyflwynodd, ynghyd â darnau eraill, ddilyniant o alawon gwerin, yn cynnwys *Dafydd y Garreg Wen, Tros y Garreg, Y Ferch o Blwy Penderyn* a'r *Delyn Aur*. Mae ganddi delyn drawiadol â'i sain yn arbennig o gyfoethog. Cadwyn o ganeuon serch yn cynnwys *Dacw 'nghariad*, *Lisa Lân* ac *Aderyn Pur* gafwyd gan Caryl Roese yn ei llais hyfryd.

Roedd yn dda cael gwrando ar aelodau'n darllen cerddi gwlatgarol Eifion Wyn, Gerallt Lloyd Owen a Dafydd Rowlands ac eraill. Cyfrannodd Rosina Davies bedwar limrig o'i gwaith ei hunan yn canu clodydd Rhiannon, Heulwen, Glenys a Mair, swyddogion y gangen. Dyma'r pumed sy'n canmol y blas a geir yn y cyfarfodydd:

*Mae cangen Caerdydd nawr yn ffynnu*
*'da chyfarfodydd sydd wastad yn denu.*
*Cewch glywed am hetiau,*
*am grefftau a llongau,*
*ond y gore i gyd yw y cwmni.*

---

# Merched y Wawr Bro Radur

Yn ein cyfarfod fis Mawrth buom yn dathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni disgyblion Ysgol Plasmawr. Cafodd dau o ddisgyblion yr ysgol, Elen Davies a Daniel Rees y fraint o gael mynd allan i Batagonia gyda chriw o ieuenctid yr Urdd yn ôl yr hydref, a'n braint ni ar y noson hon oedd cael gwrando ar eu hatgofion a'u hargraffiadau o'r wlad.

Glanio'n gyntaf yn Buenos Aires ac yna hedfan i lawr i'r Wladfa a threulio y dyddiau cyntaf yn ardal y Gaiman a Threlew gydag ymweliad byr a Phorth Madryn, y fan y glaniodd y Cymry arloesol yn ôl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yna taith hir dros nos i Esquel ar lethrau'r Andes lle buont yn treulio gweddill eu hamser yn y Wladfa. Beth fydd yn aros yn hir yn eu cof? Y croeso cynnes a gawsant ymhobman, cystadlu yn Eisteddfod y Wladfa, ymweld â'r ysgolion Cymraeg, canu caneuon gyda'r plant meithrin yr arferent hwy eu canu pan oeddent ond yn ddwyflwydd a theirblwydd oed, siarad Cymraeg mor bell o Gymru a sylweddoli nad oedd y Saesneg fawr o ddefnydd iddynt yn y rhan hon o dde America. Ac mae'n amlwg fod y bwyd wedi gadael cryn effaith hefyd – sawl tê prynhawnol Cymreig sy'n amlwg yn fwy o draddodiad bellach yn y Wladfa nac yma yng Nghymru. Ac ni ellir anghofio am y gwledda ar y cig yn yr asados. Byddent hefyd yn cofio am y modd y mae'r diwylliant Cymreig wedi ymblethu â'r diwylliant mwy Sbaeneg sy'n gynhenid i'r ardal.

Ym mis Chwefror eleni bu'r ddau ar daith i Lesotho gyda'r ysgol; a dyna brofiad arall a adawodd ei ddylanwad arnynt.

Fe dorrodd y ddau eu sgwrs i fyny yn bedair rhan a rhwng y rhannau cafwyd eitemau cerddorol arbennig – Greta yn rhoi datganiad ar y delyn, Elan yn canu *Anfonaf Angel*, Lili a Manon yn canu deuawd *Nos Da* a phedair o ferched blwyddyn 9 mewn ensemble lleisiol yn canu trefniant hyfryd o *Molaf, molaf*.

Noson wych a Chymreig ac i goroni'r cyfan cafwyd danteithion Cymreig yn y festri i ddilyn.



*Elen, Daniel ac ensemble lleisiol blwyddyn 9*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, CAERDYDD

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Bu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn ystod y mis diwethaf, ac yn arbennig Noson Gŵyl Ddewi y Gymdeithas. Ein siaradwraig wâdd oedd Mair Long a chafwyd noson ddifyr yn dilyn ei hanes ac fel telynores dda, tynnodd sawl tant, y llon a'r lleddf, ar y daith.

Braf oedd gwrando ar Buddug James yn adrodd ei hanes fel cantores Opera. Roedd yn plethu'r digrif a'r dwys yn ei chyflwyniad, ac roedd yn hawdd gweld sut y cafodd yrfa lwyddiannus fel perfformwraig.

Noson lwyddiannus arall ddechrau mis Mawrth oedd ymweliad â Chanolfan Sgitls. Roedd nifer dda yno a llawer un yn arddangos doniau cudd.

**Y Chwiorydd**

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd hyfryd yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd cyfarfod gyda Megan Morris yn siarad am ddillad Laura Ashley. Rhannodd Mari Rogers hanes y Cwilt Cymreig a dangos peth o'i gwaith ei hun. Defnyddiwyd prynhawn arall yn paratoi ar gyfer Cwrdd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Ddechrau fis Mawrth daeth Carys Whelan i'n diddori, yn sgwrsio am hanes Iolo Morganwg – prynhawn difyr dros ben.

**Y Newyddion diweddaraf o Lesotho**

Bu Caselin a'i thîm o weithwyr yn aros am rai misoedd i glywed gan Lywodraeth Lesotho a fyddent yn derbyn trwydded i gynnal y clinig. Ni ddaeth i law hyd yma, ac mae peth ansicrwydd y daw o gwbl gan fod y Llywodraeth wedi penderfynu cau nifer o glinigau preifat, ynghyd â rhai'r Llywodraeth ei hun. Mae'n anodd deall y penderfyniad yma gan fod y bobl yn diodde'n enbyd oherwydd y sychder difrifol, ond mae'n dal yn obeithiol y daw tro ar fyd.

**Cyrddau Pregethu Blynyddol**

Ein pregethwr gwadd eleni oedd Eirian Wyn Lewis Mynachlogddu. Cawsom ddau wasanaeth perthnasol a diddorol ar ddechrau wythnos y Pasg. Braf oedd cael croesawu aelodau eglwysi eraill Caerdydd i ymuno gyda ni yn yr oedfa hwyrol.

## EGLWYS DEWI SANT

**Gwasanaeth Sul y Fam**

Tynnu sylw at wahanol agweddau ar gariad Mam a chariad Duw tuag atom wnaeth y Ficer yn ei anerchiad. Roedd plant yr Ysgol Sul wedi paratoi tuswau o Gennin Pedr ar gyfer y gwragedd fel arwydd o ddiolch.

**Sul y Blodau**

Ar drothwy'r Wythnos Fawr, cynhaliwyd gwasanaeth i fendithio'r croesau palmwydd cyn gorymdeithio o gwmpas y Cilgant. Nos Fawrth daeth Côr Caerdydd, o dan arweiniad Gwawr Owen, i gyflwyno perfformiad teimladwy o'r oratorio "Myfi Yw", sy'n seiliedig ar Efengyl Sant Ioan. Cafwyd casgliad er budd Tenovus. Cynhelir gwasanaeth eciwmenaidd yn yr eglwys ddydd Gwener y Groglith pan fydd y Parchedig Judith Morris yn pregethu.

**Trefnu Blodau**

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi gan Ann Mears ar sut i greu trefniant modern ar gyfer y Gwanwyn. Mae'r sesiynau yma yn boblogaidd iawn.

**Clwb Cerdded**

Cafwyd taith gerdded ddymunol o'r Bae i Landaf ar fore braf ganol Mawrth. Roedd y cerddwyr yn barod ar gyfer cinio blasus yng Nghwrt Insole.

**Coffi a Chlonc**

Cynhelir y bore coffi nesaf ar gyfer y sawl sydd eisiau ymarfer eu Cymraeg fore Sadwrn, Ebrill 21 rhwng 10:30am a chanol dydd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Dilys Jones a'r teulu i gyd ar ôl iddi golli ei brawd, Eirian, a oedd yn byw yn Abertawe.
Cofiwn hefyd am Margaret Davies, Danescourt, a gollodd ei brawd ym mis Chwefror.

**Datganiadau Organ Amser Cinio**

Creoso i bawb i ddatganiadau organ mis Mai. Cynhelir y cyntaf ddydd Gwener, Mai 4 am 1:15 pm pan fyddwn yn croesawu Meirion Wynn Jones, Caerfyrddin yn ôl i Eglwys Dewi Sant. Ddydd Gwener, Mai 18 Elin Rees o Bury, ger Manceinion fydd yr organydd gwâdd.

## EGLWYS Y CRWYS

**Y Grŵp Merched**

Cynhaliwyd cyfarfod i 'Baratoi at y Pasg' yng nghwmni Peredur Owen Griffiths o Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr am brynhawn bendithiol.

**Y Gorlan**

Daeth Mrs. Rosanne Reeves i annerch ar 'Sara Maria Saunders' a chafwyd cyfarfod hynod ddiddorol ac addysgiadol. Gan fod tymor y Gorlan yn dirwyn i ben aeth rhai o'r aelodau ar wibdaith ar drywydd Owain Glyndŵr pryd yr ymwelwyd â Phlasty Kenchurch. Diolch i David Jones am drefnu'r daith ac i Tony Couch am yrru'r bws mini.

**Y Gymdeithas**

'Stryd fy Mebyd' oedd testun y noson ac fe gafwyd cyfraniadau amrywiol a diddorol gan yr aelodau. Cymerwyd rhan gan Cerian Angharad, Arthur Evans, John Rowlands, Nesta Tiplady a Thomas Williams. Diolch yn fawr iddynt am noson hwyliog. Darparwyd y te gan Catherine Jobbins.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Aeth nifer fach o'r aelodau ar wibdaith i Lundain. Wedi amser hamddenol braf ar y Tafwys, cinio yn Canary Wharf (yn hen dafarn Dickens) aethwyd i'r Park Theatr, Finsbury Park, lle y cafwyd gwledd yn y perfformiad o 'A Passage to India', addasiad Simon Dormandy o nofel enwog E.M.Foster a chynhyrchiad Simple8 a'r Royal & Derngate Northampton. Swper cyn dychwelyd yn Kew Gardens. Diolch yn fawr i Robin Pryderi Owen am drefnu diwrnod i'w gofio.

**Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd**

Oherwydd y tywydd garw bu'n rhaid gohirio'r Dydd Gweddi o Fawrth yr 2il tan yr 23ain, ond, diolch i'r Parch Lona Roberts, cafwyd gwasanaeth hyfryd a bendithiol. Diolch i bawb o Eglwysi Cymraeg Caerdydd a gymerodd ran. Roedd y gwasanaeth ar y thema 'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd' wedi ei baratoi gan Chwiorydd Swrinam, gwlad oedd yn ddieithr iawn i'r rhan fwyaf. *(gweler lluniau ar y clawr)*

## BETHEL, PENARTH

Trist iawn i bawb ohonom oedd clywed ar Fawrth 27ain am farw Chris, gwraig Rhodri a mam Rhys a Lowri. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu.

Nid yw byth yn rhy hwyr i ddatgan diolch, y tro hwn i Emma a Sandra am drefnu Noson Grempog a chasglu £300 at Bobath Cymru.

Llongyrchion cynnes i Bethan Lloyd ar gyrraedd ei 90 oed ar Fawrth 14eg.

Croeso nôl i Alun a Helen o'u taith i Dde Affrica i ymweld â'u merch a'i theulu.

Oherwydd eu taith ni chafodd Alun a Helen y profiad o golli oedfa Mawrth 4ydd oherwydd yr eira. Ond nid felly yr ail gwymp ar Fawrth 18fed! Mawrth oedd mis yr eira. Collwyd ein dathliad Dewi Sant ar y 4ydd a hefyd yr Ysgol Sul i bawb ar y 18fed (bore) a myfyrdod y gweinidog (hwyr). Yn yr oedfa ar y 11eg achubodd Kevin ar y cyfle i sôn am Dewi Sant a gwneud hynny'n drawiadol iawn. Derbyniais nodyn ganddo yn dweud ei fod yn bwriadau pregethu ar Sul yr eira ar y testun, 'Paratôdd Tryffo ei holl wŷr meirch i fynd, ond y noson honno bu eira mawr iawn ac nid aeth oherwydd yr eira' (1 Macabeaid 13, 22). Pwy sy'n credu hynny?

Llongyfarchwn Eleri Daniel ar gael ei dewis i fod yn un o dri o staff Tŷ Hafan (lle mae Eleri wedi rhoi gwasanaeth ers 1999) mewn achlysur ym Mhalas Buckingham ar Fai 22ain i nodi penblwydd y Tywysog Siarl yn 70 oed.

## EGLWYS EBENESER

**Madagascar**

Ar fore Sul y 25ain o Fawrth lansiwyd ein hapêl ar gyfer Madagascar. Bydd yr apêl hon yn cael ei lasio yn swyddogol yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn Aberaeron 6ed - 10fed Mehefin. Cafwyd oedfa ddiddorol iawn gydag Eira Jones yn sôn am y chwe wythnos dreuliodd ym Madagascar yn ystod y 70au. Ei bwriad oedd mynd yno yn genhades ei hun ond oherwydd galwadau teuluol nid felly y bu. Aeth yno i ymweld â Gwyneth Evans, aelod arall o'n plith dreuliodd flynyddoedd lawer yno fel cenhades. Cafwyd monolog gan Dyfan Graves hefyd a hynny yng nghymeriad David Jones y cenhadwr cyntaf aeth i diroedd ynys fawr Madagascar yn ddim ond 21ain oed. Edrychwn ymlaen at nifer o weithgareddau dros y misoedd nesaf i godi arian tuag at Madagascar a'r prosiectau arfaethedig ar hyd a lled y wlad honno.

**Cinio cawl blasus**

Gobeithio na fyddaf yn gorfod sôn eto am y bwgan gwyn ddaeth i ffwndro'n trefniadau. Y bwriad oedd cynnal cinio Gŵyl Ddewi ar ôl yr oedfa ar Sul cyntaf Mawrth, a hynny er budd ein helusen am eleni sef Apêl Madagascar. Ond gohirio fu raid tan fore Sul y 18fed o Fawrth. Er iddi fwrw eira eto - wps! dyna fi wedi gwneud - cynhaliwyd y cinio dan ofal y dynion, baratôdd y cawl, pice ar y maen, a'r baned, heb sôn am y gweini a chlirio. Cafwyd oedfa fendithiol a chwmni diddan dros bryd o fwyd.

**Masnach Deg**

I nodi pythefnos Masnach Deg fe gafwyd stondin nwyddau ar ôl ein hoedfaon er mwyn tynnu sylw at y mudiad pwysig hwn. Diolch i Rachel Jones am drefnu ac i'r bobl ifanc am eu help.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Priodas**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Aled Lewis a Mair Jenkins ar eu priodas.

**Llyfrynnau**

Gan na all bregethu oherwydd afiechyd mae Gwynn Williams wedi bod yn gweithio ar lyfrynnau sy'n deillio o'i bregethau. Mae llyfryn ar 'Joel', a'r 'Esgyniad' eisoes wedi ymddangos ac mae rhai eraill ar y ffordd. Gallwch archebu'r llyfrynnau yn rhad ac am ddim, un ai drwy wefan Mudiad Efengylaidd Cymru, neu drwy ysgrifennu at Dafydd Picton Jones, Swyddfa'r Gogledd, Mudiad Efengylaidd Cymru, 31 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU.

### Myfyrdod ar y Pasg

*(Allan o 'Cwmpawd' cylchgrawn yr eglwys).*

Adeg y Pasg rydym yn dathlu'r ffaith bod Iesu Grist wedi dod i ateb cwestiynau sylfaenol bywyd, ei fod ef wedi dod i leddfu'n hofn, a'i fod wedi dod, hyd yn oed, i goncro marwolaeth. Wedi i Iesu Grist farw ar y groes, roedd pawb yn cymryd yn ganiataol mai dyna oedd diwedd y stori. Do, fe wnaeth ef fyw bywyd arbennig, doedd neb yn gallu ffeindio unrhyw fai ynddo o gwbl. Ac roedd yn drychineb ei fod Ef ond wedi byw am 33 mlynedd. Ond er bod ei fywyd yn berffaith, ac er bod ei fywyd yn fyr, bu Iesu farw fel pawb arall. Ac felly cymerwyd ei gorff, a'i osod mewn bedd, a'i adael. Ond pan aeth rhai gwragedd at y bedd, gan ddisgwyl gweld corff marw, nid dyna a welson nhw o gwbl: *'Ar y dydd cyntaf o'r wythnos ar doriad gwawr, daethant at y bedd gan ddwyn y peraroglau yr oeddent wedi eu paratoi. Cawsant y maen wedi ei dreiglo i ffwrdd oddi wrth y bedd, ond pan aethant i mewn ni chawsant gorff yr Arglwydd Iesu.'*(Luc 24;1-3)

Beth oedd wedi digwydd? Ble oedd y corff? Doedd e ddim yna oherwydd bod yr Arglwydd Iesu Grist wedi atgyfodi. Ac oherwydd iddo atgyfodi gallwn ni fod yn sicr ei fod E'n dweud y gwir am bwy oedd Ef a pham y daeth i'r byd. Fe oedd Mab Duw a ddaeth i farw yn ein lle ni, gan gymryd cosb ein pechodau ni arno'i hun, fel y gallwn ni dderbyn maddeuant a dod yn ôl i berthynas gywir gyda Duw. Ac oherwydd ei atgyfodiad gwyddwn hefyd y bydd Ef yn dod yn ôl ryw ddydd, i farnu'r byd, ac i gasglu ei bobl ato ef ei hun. Ac felly i'r rheini sydd wedi rhoi eu ffydd yn Iesu Grist ac sy'n ei ddilyn Ef, mae popeth wedi newid

## BETHEL, RHIWBEINA

Trwy lwc llwyddwyd i gynnal y swper Gŵyl Dewi mewn bwyty lleol ychydig ddyddiau cyn i'r eira gyrraedd ond wedi hynny methwyd â chynnal gwasanaeth ar ddau ddydd Sul oherwydd y tywydd gaeafol.

Gohiriwyd y Bore Coffi Gŵyl Dewi tan Fawrth y 9fed pan ddaeth nifer dda o bobl ynghyd a chodwyd dros £400 tuag at yr elusen 'Cerddoriaeth Mewn Ysbytai'. Bu cyfle i glywed Trystan Francis yn canu detholiad o ganeuon Cymreig.

Yn ystod y mis daeth Ann Mears i'n rhyfeddu gyda'i sgiliau trefnu blodau a chawsom wledd i'r llygaid. Rhoddwyd elw'r bore i Brosiect Y Digartref (Salem).

Ein gweinidog, y Parch Evan Morgan oedd yn gwasanaethu ar Sul y Blodau ac ar Sul y Pasg ymunwn â'r aelodau yn Salem Treganna.

# Ysgol Pen-y-Garth

Bu ysgol Pen-y-Garth yn brysur eleni eto yn cystadlu yn yr Eisteddfod mewn amryw o gystadlaethau. Llongyfarchiadau i Josh Lewis a gafodd 1af yn y gystadleuaeth offer taro. Pob lwc hefyd i'r criw dawnsio creadigol a oedd yn fuddugol a fydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd y parti deulais lwyddiant yn yr Eisteddfod Sir wrth iddynt ddod yn ail. Cafodd Imogen Warner lwyddiant hefyd yn yr Eisteddfod Sir wrth iddi ddod yn 3ydd am ganu'r delyn a hefyd yn 3ydd am ganu'r ffidil.

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed am ennill cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd. Diolch hefyd i fam Callum O'Brien, cwmni Robert Thorne Group am noddi'r cît newydd ar gyfer yr ysgol.

Braf hefyd yw gweld un o ddisgyblion blwyddyn 5 - Elis Morris yn ymddangos ar raglen Cefn Gwlad yn wythnosol. Ffermwr i'r dyfodol yn siwr.



---

# Ysgol Y Wern

**Cystadleuaeth Rotari**

Llongyfarchiadau i Rhys Matthews Blwyddyn 6 a ddaeth i'r brig mewn Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus a drefnwyd gan Glwb Rotari Llanisien drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r ysgol yn cystadlu'n flynyddol yn y gystadleuaeth hon sy'n cael ei threfnu ar gyfer ysgolion Gogledd Caerdydd. Da iawn Rhys am rannu profiadau ei hen ewythr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gyda neuadd orlawn. Llongyfarchiadau hefyd i Martha Ruck a ddaeth yn ail yn y Gystadleuaeth Ysgrifennu Stori.



**Eisteddfod**

Llongyfarchiadau i Mari Fflur a ddaeth yn ail yn y Llefaru Blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd. Hefyd i'r Gân Actol a ddaeth yn gyntaf. Bydd y gân actol yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol Brycheiniog a Maesyfed. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

**Gŵyl Ddawns Rubicon**

Da iawn i'r dawnswyr a wnaeth berfformio yn wych ar lwyfan Neuadd Dewi Sant.

**Gymnasteg**

Ar ôl wythnosau o waith caled aeth ein triawdau gymnasteg i Stoke on Trent i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth gymnasteg ysgolion Prydain. Diolch i bob un o'r disgyblion am berfformiadau mor arbennig. Roedd un trio wedi llwyddo i gipio'r 4ydd safle a'r tîm arall yn 11eg dros Brydain. Roedd y safon yn uchel dros ben unwaith eto eleni.

Edrychwn ymlaen yn awr at fynd eto Mis Mai pan fydd ein tîm Acro yn cynrychioli Cymru!

**Cystadleuaeth Gwyddbwyll Cenedlaethol**

Llongyfarchiadau i'n tîm Gwyddbwyll a fuodd yn cystadlu ym Merthyr yn ddiweddar. Ar ôl diwrnod o gystadlu brwd fe ddaethant yn wythfed dros Gymru gyfan. Da iawn nhw.

**Arolygiad**

Yn dilyn ein harolygiad diweddar gan Arolygwyr Ei Mawrhydi, braf oedd derbyn adroddiad sydd yn adlewyrchu cymuned weithgar a chlos Ysgol y Wern.

**Ysgol Greadigol Arweiniol**


Mae Ysgol y Wern yn ran o gynllun 'Ysgol Greadigol Arweiniol' Cyngor Celfyddydau Cymru. Fel rhan o'r cynllun llynedd fe fuodd disgyblion Blwyddyn 2 yn cydweithio ar brosiect cyffrous gydag animeiddiwr proffesiynol i greu e-lyfrau yn seiliedig ar storiau traddodiadol adnabyddus .

Mae'r Cyngor Celfyddydau wedi estyn gwahoddiad i Ysgol y Wern arddangos gwaith y prosiect yn yr Oriel Tate Modern yn Llundain rhwng 24ain a'r 29ain o Ebrill mewn arddangosfa arloesol sef 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau'.

Fe fydd yr arddangosfa yn hebrwng ymwelwyr ar daith trwy'r cyfoeth o ddysgu sy'n deillio o'r cynllun ac yn edrych ar sut caiff creadigrwydd ei feithrin a'i ddatblygu.

# Lansiad CD Côrdydd

Mae un o brif gorau'r brifddinas, Côrdydd, yn lansio CD mewn cyngerdd arbennig yn Eglwys St John, yr Ais, Caerdydd ar nos Sadwrn 28ain Ebrill 2018. Mae tocynnau ar gael yn www.cordydd.eventbrite.co.uk. Mae'r CD yn adlewyrchu datblygiad y côr dros y ddwy flynedd ar bymtheg ddiwethaf ers ffurfio'r côr o dan arweiniad y diweddar Sioned James.




Recordiwyd y CD yn stiwdio Acapela ym Mhentyrch o dan ofal y cynhyrchydd Rhian Williams ym mis Tachwedd y llynedd. Cyfeilydd y côr ydy Branwen Gwyn, sydd wedi bod yn gyfeilydd ers y cychwyn cyntaf, a Rhys Taylor sydd yn gyfrifol am drefniannau'r band.

Dywedodd y cerddor a sylfaenydd côr y Swansea Bach, John Hugh Thomas, "Fe ddaeth Côrdydd i fodolaeth trwy ddychymyg a chyffro'r cerddor dawnus, Sioned James ond braf gwybod bod ei chyfaill agos, Huw Foulkes, wedi llwyddo i ailgynnau'r fflam y gwnaeth Sioned ei thanio gyda chymaint o asbri yn y flwyddyn 2000".

Ar wahân i ganu ar CD Nadolig Bryn Terfel, a gafodd ei ryddhau yn 2010, dyma ail CD y côr. Recordiwyd y cyntaf, sy'n gasgliad o ganeuon John Rutter, yn 2007. Mae Côrdydd wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol un ar ddeg o weithiau, a chipio teitl Côr yr Ŵyl ar bum achlysur. Fe ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Corau Radio Cymru yn 2003, ac ennill categori'r Corau Cymysg yng nghystadleuaeth Côr Cymru ar S4C ddwywaith, yn 2009 a 2017. Dros y blynyddoedd mae Côrdydd wedi canu amrywiaeth eang o ddarnau ar lwyfannau ar draws Cymru a thu hwnt, gan deithio i Barbados a Hong Kong, perfformio yn Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd, ac fel rhan o Ŵyl Gymreig Ontario yng Nghanada. Bu'r côr yn ffodus hefyd o gael cydweithio â rhai o gyfansoddwyr corawl enwoca'r byd, gan gynnwys Eric Whitacre, Paul Mealor a Morten Lauridsen.

Am gopi o'r CD cysylltwch â cordydd1@gmail.com.

Am fanylion pellach cysylltwch â Huw Foulkes ar 07773 911331 neu Llio Ellis ar 07971 246116.

---

# DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD 2018

Ar fore Gwener, Mawrth 23ain, daeth nifer o chwiorydd o eglwysi Cymraeg Caerdydd ynghyd yn Eglwys y Crwys i fod yn rhan o'r gwasanaeth a baratowyd eleni gan chwiorydd Swrinam. 'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd!' oedd y thema a thrigolion y wlad hardd hon yn Ne America yn ein hannog i garu'r Greadigaeth, rhodd ryfeddol gan Dduw, ac i ymrwymo i ofalu am y byd mewn modd cyfrifol gan ddiogelu'r Ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Croesawyd ni i'r capel gyda'r sgrîn fawr yn arddangos gwaith celf Alice Pomstra-Elmont, gwraig saithdeg oed o Swrinam. Mae'n mawrygu byd natur cyfoethog ei gwlad gyda'r dwylo'n derbyn y rhodd ddwyfol ac yn barod i'w throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r saith merch yn symbol o aml-ethnigrwydd Swrinam a hefyd o saith diwrnod y Creu. Roedd saith gwraig o Eglwys y Crwys wedi gwisgo'n addas ar gyfer rhoi hanes Alima, Muyinga, Mei Ling, Carolina, Willemien, Shanti a Kartini, pob un o gefndir ethnig gwahanol ac yn gweithio a magu teulu yn Swrinam heddiw. Darllenwyd hanes Creu'r Byd gan ferched Minny Street, Myfyrdod yn seiliedig ar Salm 8 gan gynrychiolydd o Eglwys Dewi Sant a Gweddïau Dros y Byd gan Eglwys y Tabernacl. Roedd Eirian Edwards yn cynorthwyo'r Parch Lona Roberts wrth arwain y gwasanaeth, gyda Nesta Tiplady wrth yr organ, ac rydyn yn ddiolchgar iawn i'r ddwy ohonynt am eu gwaith.

*(gweler lluniau ar y clawr)*

# Dilysu tafodieithoedd cyfredol yw'r flaenoriaeth

A minnau'n ddarlithydd sy'n arbenigo mewn tafodieithoedd, roedd diddordeb mawr gennyf yn erthygl Mr Aled Thomas 'Tafodiaith yw un o drysorau mwyaf yr iaith Gymraeg ac mae angen ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol' yn rhifyn Chwefror *Y Dinesydd*. Hoffwn ddiolch iddo am dynnu sylw at bwnc pwysig iawn, sef dyfodol tafodieithoedd y Gymraeg.

Credaf fod ei feirniadaeth o'r sylw – neu'n hytrach y diffyg sylw – a roddir i wahanol amrywiadau ar y Gymraeg ar feysydd llafur ysgolion Cymru yn ddigon teg. Yn yr un modd, mae'r berthynas gymhleth rhwng twf addysg Gymraeg a dyfodol gwahanol dafodieithoedd Cymraeg yn amserol iawn, yn enwedig o gofio am darged heriol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er hynny, rhaid imi nodi nad wyf yn gytûn â phob un o safbwyntiau Mr Thomas, ac fy mod yn anghytuno yn dra sylfaenol ag eraill.

Ond cyn mynd ymhellach, rhaid gofyn y cwestiwn syml: beth yn union yw 'tafodiaith'? Ateb syml yw 'amrywiad' ar iaith benodol. Pwy, felly, sy'n siarad tafodiaith? Y farn gyffredinol ymhlith arbenigwyr yw bod pob amrywiad ar iaith yn dafodiaith o ryw fath. Felly, mae gan bob siaradwr Cymraeg dafodiaith, ac nid oes modd i unrhyw siaradwr fod yn ddi-dafodiaith.

Gan hynny, nid yw Cymraeg safonol ond un dafodiaith ymhlith nifer. Y prif wahaniaeth rhyngddo a thafodieithoedd eraill yw ein bod ni fel cymuned ieithyddol wedi arfer rhoi bri arbennig arno. Ond nid yw Cymraeg safonol – ynddo'i hun – yn well nac yn waeth nag unrhyw dafodiaith arall.

Bydd 'tafodiaith' fel rheol yn perthyn i grŵp o unigolion. Byddai 'iaith Cwm Tawe' neu 'iaith Glantaf', er enghraifft, yn ddisgrifiadau anffurfiol, cyffredinol o ddwy dafodiaith benodol. Ond mae'n werth cofio nad ar sail daearyddiaeth yn unig y mae modd gwahaniaethu rhwng gwahanol dafodieithoedd, ond bod sawl ffactor arall yn berthnasol, megis oedran siaradwyr, eu dosbarth cymdeithasol ac iaith eu haelwydydd.

Ond y tu hwnt i faes ieithyddiaeth mae'r enw 'tafodiaith' yn aml yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at un o'r tafodieithoedd daearyddol traddodiadol. Dyna sydd gan Mr Thomas mewn golwg wrth sôn am yr angen i ddisgyblion ysgol gael eu 'dysgu i siarad mewn tafodiaith'. Y broblem i mi ynghylch y safbwynt hwn yw'r awgrym nad oes gan rai siaradwyr dafodiaith, a bod eu hiaith felly'n anghyflawn, yn ddiffygiol neu'n israddol – mewn geiriau eraill, yn broblem y mae angen ei datrys. Awgrymir bod gennym hierarchaeth o siaradwyr Cymraeg, gyda'r rheini sy'n siarad iaith nodweddiadol o ysgolion Caerdydd tua'r gwaelod (am wn i). Byddwn yn anghytuno'n llwyr â'r dull hwn o feddwl am dafodieithoedd.

Daw hynny â ni at gamsyniad cyffredin arall. Tan ail hanner yr ugeinfed ganrif, roedd tuedd i synied am dafodieithoedd fel pethau unffurf a digyfnewid. Mewn geiriau eraill, byddai tafodieithegwyr traddodiadol yn chwilio am ryw 'burdeb' ieithyddol ffug. Ychydig o ddiddordeb a oedd ganddynt yn y modd yr oedd gwahanol ffurfiau yn amrywio ac yn newid o fewn cymunedau.

Erbyn heddiw, pennaf nod cannoedd os nad miloedd o astudiaethau tafodieithegol diweddar yw taflu goleuni ar brosesau cymhleth amrywio a newid ieithyddol. O ran y Saesneg, er enghraifft, clywn am 'Colonial Englishes', sef amrywiadau y tu hwnt i ynysoedd Prydain lle y gwelwyd tafodieithoedd o wahanol ardaloedd o Brydain ac Iwerddon yn cymysgu i greu tafodieithoedd newydd. Yr un math o broses a gafwyd yn y Wladfa ym Mhatagonia o safbwynt y Gymraeg.

Y pwynt sylfaenol yma yw bod tafodieithoedd wastad wedi bod yn bethau byw, deinamig sy'n newid yn gyson, yn aml drwy ddylanwad tafodieithoedd eraill. Fodd bynnag, mae syniadau Mr Thomas yn tueddu i awgrymu bod anghysonderau, amrywiadau a newidiadau ieithyddol yn broblemataidd.

Dau air arall sy'n codi'n aml yn y cyd-destun hwn yw 'naturiol' ac 'annaturiol'. Byddwn yn dadlau nad yw'r rhain yn dermau defnyddiol wrth drafod y Gymraeg. Er enghraifft, mae'n gwbl arferol (neu 'naturiol') i lawer iawn o blant o Gaerdydd (sy'n siarad yr iaith ar yr aelwyd) ddefnyddio 'efo' a 'mas' yn yr un frawddeg, er nad yw hynny'n arferol yn y tafodieithoedd 'traddodiadol'.

Yn yr un modd, ceir awgrym weithiau mai un o nodweddion Cymraeg 'naturiol' yw prinder dylanwad y Saesneg. Ond ai 'annaturiol' yw dweud 'hogyn', 'crwt', 'còg' neu 'rhocyn' am fachgen, a 'hogan', 'crotes', 'lodes' neu 'rhoces' am ferch, gan mai geiriau benthyg o'r Saesneg yw'r rheini bob un? Go brin y cytunai neb â hynny.

Rhwng popeth, felly, byddwn yn dadlau mai di-fudd iawn yw honni bod un dafodiaith yn well nag un arall. Yn yr un modd, byddwn yn dadlau mai'r peth gorau fyddai osgoi'r termau 'naturiol' ac 'annaturiol' wrth drafod amrywio ieithyddol.

Wedi dweud hynny, mae'n sicr yn wir bod cyfoeth rhyfeddol yn nhafodieithoedd y Gymraeg ac mae'n gwbl briodol eu bod yn cael sylw yn ein hysgolion. Ond hollol anymarferol fyddai disgwyl i athrawon ddysgu plant drwy gyfrwng tafodiaith ddaearyddol sy'n wahanol i'w tafodiaith eu hunain. Cofiwn fod actorion proffesiynol yn ei chael hi'n ddigon anodd perfformio mewn tafodiaith ddieithr, a hynny pan fo sgript parod ganddynt!

Cofiwn hefyd nad â disgyblion yn unig y mae athrawon yn siarad. Beth am sgyrsiau â rhieini, cyn-ddisgyblion, cymdogion, neu eu teuluoedd eu hunain? Pryd y byddai 'athrawon' yn troi i fod yn aelodau cyffredin o'r gymuned heb fod disgwyl iddynt siarad mewn tafodiaith anghyfarwydd?

Yn y pen draw, cymunedau sy'n cynnal tafodieithoedd. Os nad yw'r gymuned y tu hwnt i fuarth yr ysgol yn cynnal tafodiaith benodol, yna does dim diben disgwyl i'r ysgol wneud hynny. Nid siarad fel eu hathrawon – na'u rhieni – y mae plant p'run bynnag, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd pob athro a rhiant yn gwybod hynny'n burion! Mae iaith yn llawer mwy cymhleth na hynny.

# Cylch Cinio Cymry Caerdydd

Yr awdur, bardd a sgriptwraig Catrin Dafydd oedd siaradwraig mis Mawrth Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Cafwyd arlwy gwbl wahanol a deniadol ganddi, sef perfformiad o amryw o'i cherddi ac alawon, rhai difyr, difrif a doniol. Cynhwysai'r rhain berfformiad cyntaf - ie wir, *première*! - o alaw swynol i ddathlu genedigaeth nith i gyfeilles iddi.

Rhwng y rhain, a'i sylwadau treiddgar a ffraeth ar ei hunaniaeth Gymraeg, soniodd am bwysigrwydd ymestyn allan yn fwy cyson i rai o gartrefi di-Gymraeg. Drwy ei darlun arbennig o dyfu i fyny a byw yn Nhrebiwt, Caerfyrddin a Gwaelod-y-garth, cafwyd noson i'w chofio ganddi.



*Cyn-brifathro Catrin yn Rhydfelen, sef Bryan James, Catrin Dafydd, y llywydd Alwyn Evans ac aelod o'r pwyllgor ac ysgrifennydd y noson, Meri Griffiths.*

---

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yn flynyddol dethlir Gŵyl Ddewi yng nghwmni tua hanner cant o aelodau gyda chawl blasus, tarten fale a pice ar y maen. Trefnir y gweini gan Audrey Lake a "gwragedd y gegin".

Y gŵr gwadd eleni oedd Huw Llywelyn Davies, cyn athro, chwareuwr rygbi, ac un fu'n enwog fel sylwebydd a gohebydd yn y gamp am flynyddoedd ar radio a theledu. Roedd yn fraint gwrando ar ei brofiadau ar hyd cyfnod diddorol yn HTV a'r BBC, ei ymweliadau i wledydd lawer fel Seland Newydd ac Awstralia, a'i falchder o adnabod a chydweithio gydag enwogion fel Ray Gravell ac eraill. Bu'n sylwebydd ar dros 300 o gemau. Wedi dysgu yng Ngholeg Llanymddyfri am gyfnod ar ddechrau ei yrfa, gwnaeth ddefnydd llawn o'r termau rygbi Cymraeg a fathwyd gan ei dad, Eic Davies, yn ogystal ag eraill. Mae Huw yn haeddu'r clod am normaleiddio'r termau hyn a'u gwneud yn rhan annatod o'n hiaith. Diolchwyd iddo am brynhawn diddorol gan y cadeirydd, Gwenda Morgan.

Hefyd fel rhan o'r rhaglen mae'r aelodau yn edrych ymlaen at y cwis blynyddol ym mis Mawrth a drefnir gan Idwal a Mair Hughes. Er ei afiechyd, roedd Idwal wedi paratoi deunydd eleni eto, a gyflwynwyd drosto gan ein Cadeirydd. Cafwyd amrywiaeth o gwestiynau diddorol – chwech tîm yn ymryson am y gorau – prynhawn hwylus yn wir! Anfonwyd dymuniadau da i Idwal am wellhad buan.



***Huw Llywelyn Davies***

---


*(parhad o dudalen 12—tafodieithoedd)*


Felly er fy mod yn feirnadol o rai o'r cynigion i ddysgu tafodiaith, cytunaf yn llwyr fod lle i wneud mwy yn yr ysgolion. Un o broblemau mwyaf y Gymraeg yw diffyg hyder ei siaradwyr, boent yn siaradwyr tafodieithoedd traddodiadol neu rai mwy newydd. Felly mae angen datblygu dealltwriaeth o'r ffaith nad oes rhesymau gwrthrychol dros gredu bod un dafodiaith yn rhagori ar un arall. Mae angen dilysu amrywiadau tafodieithol a diddymu unrhyw awgrym fod Cymraeg to ifanc y de-ddwyrain yn 'annaturiol'.

Rhaid cydnabod, hefyd, fod bri arbennig yn cael ei osod ar Gymraeg safonol, ac y dylid felly geisio ei feistroli ar bob cyfrif. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, mai mater o gonfensiwn cymdeithasol sy'n cyfrif am statws uchel Cymraeg safonol. Nid yw hynny'n golygu bod tafodieithoedd eraill yn israddol. Pe bai disgyblion ein hysgolion yn deall hynny, byddai'n hwb mawr i dafodieithoedd o bob math. Mae'n bwnc hynod bwysig, ac efallai y daw cyfle i ddweud rhagor amdano rywdro eto.

*Dr Iwan Wyn Rees, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd*

**Rhif: 181**




## Ar Draws

6. Dinas sy'n amddiffynfa i gnewyllyn yr elyrch. (7)
7. 150 etifedd disglair (5)
9. Mae cywasgu'r anamserol yn anghyffredin (5)
10. Cerdd am ddiod i ddrysu'r gelyn. (7)
12. 'O wybod mai oferedd fu
    ----- ----- ----- ----- waun a rhos' (IDH) (2,4,2,3)
14. '----- ---- -----, gawod Ebrill
    Ar ein gwarthaf dros y bryn? (DLJ) (3,1,7)
18. 500 fiolin yn chwarae'n brysur (7)
19. Agoriad i hanner deall calon gweddi (5)
21. 'Ganol gaeaf noethlwm
    Digon ----- trist
    I'r Arglwydd hollalluog Iesu Grist' (cyf SBJ) (5)
22. "Ffo am dy einioes' ebe hi,
    At Fab y Dyn i -----' (WJ) (7)

## I Lawr

1. Gwynnu blawd sy'n codi un. (5)
2. Cerdded i adfeilion Tŷ Mawr (6)
3. Llwydni ar yn ail mewn pwll (3)
4. Y ci dwl sy'n neidio gatiau (6)
5. 'Nid oes iaith nac ymadrodd, lle ni chlybuwyd eu ---- hwynt' (Salmau) (7)
8. '----- derfynau dy deyrnas,
   A galw dy bobol ynghyd' (MR) (7)
11. Lledu pelydrau'r lleuad o gwmpas yr Eglwys Newydd (7)
13. Gelyniaeth sy'n annymunol i ddim un (7)
15. Ymestyn yr wyn melfed drud ar yn ail (6)
16. A fu llais yn cyflwyno un llythyren ar y tro? (6)
17. Mae moduron William fel anifeiliaid iddo (5)
20. Bachgen sy'n dechrau meddwl am bopeth (3)

**Enillydd Croesair Rhif 179**
**Petra Bennett, Rhiwbeina**

**Atebion Croesair Rhif 179**

**Ar Draws:** 7. Ystyr 8. Gwyddori 9. Ysgubol 10. Erwyd 12, Caerfyrddin 15. Trychinebus 18. Deial 19. Awgrymu 21.Dyn eira 22. Atodi

**I Lawr:** 1. Rhyw ysictod 2. Ategu 3. Crib 4. Sgolor 5. Cyffelybu 6. Gogwyddo 11. Dan orchudd iâ 13. Anial dir 14. Tyfiant 16. Efallai 17. Tymor 20. Gwas

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mai, 2018
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

---

## Protest yn Erbyn Y Ffair Arfau

Ar ddydd Mawrth, 27 Mawrth cynhaliwyd protest tu allan i Arena Motorpoint, Caerdydd i wrthwynebu cynnal Ffair Arfau y DPRTE *(the Defence, Procurement, Research, Technology and Exportability Exhibition).*

Er y tywydd gwlyb, cafwyd 'Cymanfa Ganu'. Gwyddir bod emyn-dôn o'r enw Caerdydd, ond cafwyd y cyfle ar y bore hwn i ganu emyn yn cynnwys y gair Caerdydd ar y dôn Cwm Rhondda.

*Dyma grud y gair 'tangnefedd',*
*Ysgol gân caneuon ffydd,*
*Dyma'r man lle dysgom garu*
*Gwerthoedd gorau bro Caerdydd:*
*Deffrwn Gymru! Deffrwn Gyrmu!*
*Trown o'n tref holl arfau'r ffair.*

Dywedodd Mererid Hopwood: "Y gobaith mawr wrth gwrs yw na fydd angen ymgynnull eto, ac y bydd y masnachwyr yn dargyfeirio eu doniau i greu nwyddau heddychlon.




***Llun: Geraint Tudur***

*Pump o bregethwyr Undeb yr Annibynwyr tu allan i Arena Motorpoint Caerdydd ar ddydd y brotest - Guto Prys ap Gwynfor, R Alun Evans, Geraint Tudur, Arfon Jones ac Alun Tudur*

# Cymrodorion Caerdydd

Daeth tymor 2017/18 y Cymrodorion i ben gyda chyflwyniad (wedi goresgyn anawsterau technegol!) gan Y Gwir Barchedig Dr Barry Morgan ar 'Dau artist mawr eu canrif: Kyffin Williams ac R.S. Thomas'.

Yr oedd y ddau yn feistri ar ddwy gelfyddyd wahanol, eto mae'r tebygrwydd rhyngddynt, fel y dangosodd Dr Morgan, yn drawiadol iawn. Yn y lle cyntaf, ymfalchïai'r ddau yn eu Cymreictod. Dywedai Kyffin ei fod yn 'peintio yn Gymraeg', ac er mai Saesneg oedd cyfrwng barddoniaeth R.S., mae llais y Gymru Gymraeg i'w glywed yn ei ganu. Yr oedd y ddau yn medru Cymraeg, er mai dysgu'r iaith wnaeth R.S.

Ysbrydolwyd cynnyrch y ddau artist gan dirlun Cymru - tirlun y gogledd yn enwedig. Hoffent grwydro'r mynyddoedd ac roeddynt yn gartrefol yn yr unigeddau. Serch hynny, hoffai Kyffin gymdeithasu, ac er i R.S. fynegi ei anhoffter o gwmni pobl, yr oedd yn ddyn hynaws ac yn offeiriad gofalus a chymwynasgar.

O blith yr agweddau amrywiol ar fywydau'r ddau a drafodwyd gan Dr Morgan un o'r mwyaf diddorol (a dadlennol) oedd eu perthynas cymhleth gyda'u mamau. Roedd mam Kyffin yn oeraidd tuag ato a mam R.S. yn ei faldodi, ond ni allai faddau iddi am ei amddifadu o'r Gymraeg yn ei blentyndod.

Agwedd arall ar y ddau i gael sylw Dr Morgan oedd eu hagwedd at grefydd. Roedd Cristnogaeth yn ddirgelwch i Kyffin, ac ni chyfrifai ei hun yn Gristion. Serch hynny cafwyd lluniau dirdynnol ganddo o ddioddefiadau Crist. Offeiriad oedd R.S., wrth gwrs, ond un o themâu dwfn ei ganu yw absenoldeb ymddangosiadol Duw.

Drwy gyfuniad o ddyfyniadau o waith R.S. a golwg ar rai o luniau Kyffin (ar sgrin !), a'i adnabyddiaeth bersonol o'r ddau, llwyddodd Barry Morgan i ddarparu gwledd ar ein cyfer a dwyn y tymor i ben mewn modd cofiadwy iawn.



*Dafydd Griffiths (Llywydd), Barry Morgan, Mary Thomas (Trysorydd), Gwynn Matthews (Ysgrifennydd).*

---

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun 19 Mawrth cawsom ni ddarlith ddiddorol iawn gan Dr Lisa Hurt o Brifysgol Caerdydd gyda'r teitl 'Miri Mawr: Cyfraniad Cymru i Waith Ymchwil Meddygol a'r Chwyldro Data Mawr'. Epidemiolegydd yw Lisa, hynny yw un sy'n ymdrin ag ystadegau iechyd a dim byd i wneud a'r croen fel mae rhai yn meddwl! Yn gyntaf soniodd Lisa am ystyr y term annelwig 'Data Mawr': nid oes iddo ddiffiniad ffurfiol, ond deallir yr ystyr fel ymdriniaeth a setiau o ddata sy'n rhy fawr i ddulliau traddodiadol o ddadansoddi.

Mae y maes iechyd yn cynhyrchu digonedd o 'ddata mawr' a rhoddodd Lisa nifer o enghreifftiau o hyn gan ddechrau gyda gwaith Archie Cochrane. Albanwr o Galashiels oedd e, ac wedi ei brofiadau yn y Rhyfel Cartref yn Sbaen ac yn yr Ail Ryfel Byd gwelodd bod diffygion yn y ffordd roedd clefydau yn cael eu trin, ac roedd yn arloeswr yn gofyn am dystiolaeth o effeithiolrwydd triniaethau. Yng Nghymru mae'n enwog am ei astudiaethau o iechyd glowyr yn y Rhondda Fach. Casglodd doreithiau o ddata am y glowyr, ac enwyd llyfrgell ar-lein o brofion meddygol ar ei ôl.

Roedd Archie Cochrane hefyd yn gysylltiedig ac astudiaeth Mintai Caerffili lle casglwyd llwythi o ddata ar 2375 o ddynion yn ardal Caerffili dros gyfnod o ddegawdau. Dangoswyd sut y gellir lleihau effeithiau dementia, clefyd y siwgr a strociau yn sylweddol iawn trwy ddilyn pump arferiad iach sef cynnal pwysau iach, bwyta'n iach, yfed llai o alcohol, stopio ysmygu a gwneud ymarfer corff.

Gorffennodd Lisa trwy sôn am astudiaethau anferth cyfredol. Un nodedig iawn yw y bas data SAIL (Secure Anonymised Information Linkage) gweler https://saildatabank.com/ sy'n cynnwys gwybodaeth feddygol wedi ei anonimeiddio ar filoedd o bobl. Mae yr adnodd hwn yn un o'r rhai pwysicaf yn y byd ac mae pencadlys y prosiect yn Abertawe. A dyma lle gallwn ni i gyd helpu. Ewch i: https://www.healthwisewales.gov.wales i gofrestru a rhannu eich profiadau iechyd. Gallwch gyfrannu eich data mewn ffordd ddiogel a thrwy hynny helpu meddygon a dod yn rhan o'r chwyldro 'data mawr'!

Rhys Morris

# Gwylio'r Geiniog

*"Scam sydd yn edrych yn synhwyrol yw ambell i neges. Ni ddylid ymateb. "*

## Huw Roberts



Gyda'r gwanwyn wedi cyrraedd, tri pheth gwahanol i'w hystyried yn y golofn.

**Newidiadau Treth Incwm**
Ar 6 Ebrill 2018 mae'r flwyddyn dreth newydd yn cychwyn. Bydd eich lwfans personol yn codi i £11,850 a bydd unigolyn yn talu treth incwm @ 40% pan yn ennill dros £46,350. Bydd y lwfans di-dreth ar incwm o ddifidend yn lleihau o £5,000 i £2,000. I unigolion gydag incwm o eiddo sydd yn talu treth incwm @ 40% bydd y canran o log y gallwch hawlio ar forgeisi yn lleihau.

**Canllawiau am Bwer Twrnai *(Power of Attorney).***
Mae unigolyn yn gallu penderfynu pwy sydd i edrych ar ei hôl os oes salwch yn dod. Gall hyn ddechrau yn syth neu yn hwyrach pan mae gallu'r unigolyn yn lleihau. Mae dau fath o bwer twrnai :

**Ariannol** : Bydd eich twrnai yn edrych ar ôl eich arian / buddsoddiadau / eich cartref. Gall eich twrnai fod yn aelod o'r teulu, ffrind agos neu weithiwr proffesiynol. Gallwch gael mwy nag un twrnai.

**Iechyd a Gofal** : Bydd gan eich twrnai yr hawl i wneud penderfyniadau ar eich rhan a gall fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind agos.

**A oes gennych I-Ffôn?**
Os felly efallai y byddwch wedi derbyn neges destun honedig oddi wrth Apple yn dweud "bod eich Apple ID yn mynd i orffen heddiw". Scam sydd yn edrych yn synhwyrol yw'r neges. Ni ddylid ymateb. Yn yr un modd anwybyddwch negeseuon sy'n honni i fod o'r Swyddfa Dreth yn cynnig ad-daliad.

*Mae Huw yn gyfrifydd hunan gyflogedig yn cynnig gwasanaeth ar dreth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant. Cysylltwch ar 029 2069 4524 neu huwrobertsaccountant@googlemail.com os ydych eisiau trafod unrhyw fater.*

---

*"Bydd rhywbeth at ddant pawb gobeithio o lwyfan y Brifwyl"*

## Colofn Ashok



Ar ôl blwyddyn a mwy o drafod a threfnu mae manylion cyngherddau'r eisteddfod yn y Bae yn gyhoeddus o'r diwedd. Mae ystod eang o artistiaid, cyfansoddwyr, ysgrifenwyr, beirdd, cerddorion o bob cwr o Gymru ynghyd â chyfranwyr lleol wedi bod yn gweithio'n galed i baratoi rhaglen o gyngherddau o'r safon uchaf i ddiddanu torfeydd yng Nghanolfan y Mileniwm. Mae Theatr Donald Gordon y Ganolfan yn lleoliad perfformio arbennig, sy'n galw am gyngherddau uchelgeisiol a chofiadwy.

Fel agoriad mawreddog i arlwy'r wythnos bydd dau berfformiad o'r un cyngerdd yn cael eu cynnal ar y nos Wener a'r nos Sadwrn gyda Bryn Terfel yn arwain cast a chorws ifanc. Stori bywyd yr actor a'r canwr byd-enwog Paul Robeson a'i gysylltiad cryf â Chymru yw *Hwn yw fy Mrawd : Paul Robeson - Arwr i Gymru, Arwr i'r Byd*. Awdur y libreto yw Mererid Hopwood a chyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Robat Arwyn. Cynhelir perfformiad nos Wener drigain mlynedd i'r diwrnod ers i Paul Robeson annerch cynulleidfa Eisteddfod 1958 yng Nglyn Ebwy.

Dros weddill yr wythnos yng Nghanolfan y Mileniwm bydd 'Gig y Pafiliwn' dra gwahanol gyda Geraint Jarman a Band Pres Llareggub, Siwpyr Stomp gyda beirdd ifanc Cymru'n serennu ar lwyfan rhyngwladol, addasiad newydd sbon o Teilwng yw'r Oen a gwedd gwbl wahanol ar rai o glasuron y byd pop Cymraeg cyn gwledd o gerddoriaeth gwerin gyfoes gan Pendevig, grŵp yn cynnwys perfformwyr adnabyddus o Calan, Mabon a Plu ac eraill, fydd yn perfformio yng Nghaerdydd wedi dychwelyd o gyngerdd agoriadol Gŵyl Lorient yn Llydaw.

Dyma chi rhywbeth at ddant pawb gobeithio o lwyfan y brifwyl sy'n ychwanegu at y cyfoeth o berfformiadau fydd yn cael eu cynnal o gwmpas y maes a lleoliadau eraill yn ystod wythnos yr eisteddfod. Yn bersonol fedra i ddim aros i'w gweld a'u mwynhau - cyfle i ni yn y brifddinas i ddangos y gorau o ddiwylliant Cymraeg i gynulleidfaoedd hen a newydd. Cynyrchiadau fydd yn siŵr o gystadlu'n hawdd ag unrhyw un arall ar lwyfan gorau Cymru.

# CERDYN POST O OKINAWA

## Lowri Haf Cooke yn holi Owen Phillips

***Mae Owen Phillips, sy'n 51, yn Athro Cysylltiol yn Okinawa, Siapan. Mae e'n byw yno gyda'i wraig Mariko a'u dau o blant; mae Cai Morgan yn 10 oed, a Ryû Mabon yn 5 oed. Mae Cai yn golygu 'Môr' yn yr iaith Siapaneaidd, a Ryû yn golygu 'Draig'.***

**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**
Ces i fy ngeni a fy magu yn y Barri. Roedd Mam yn siarad Cymraeg gyda fi, ac roeddwn i`n arfer ei hateb hi yn y Saesneg, felly ges i fagwraeth ddwy-ieithog! Mae`r Barri`n enwog am fod yn dre ar lan y môr, a thyfais i fyny yn nofio, syrffio ac yn gweithio fel *lifeguard* ar y traeth.

**Pryd a sut lanioch chi yn Okinawa, a beth ydych chi'n ei wneud yno?**
Cyrhaeddais i Okinawa yn 1998 - ar hyn o bryd dwi`n gweithio fel athro Saesneg mewn Prifysgolion lleol. Er bod Okinawa heddiw, yn swyddogol, yn ran o Siapan, mae'r berthynas yn debyg iawn i'r un rhwng Cymru a Lloegr. Ceir hanes pethe fel yr *hogen fuda*, sef 'Welsh Not' Okinawaidd, a osodwyd rownd gyddfau siaradwyr Uchinaguchi - iaith frodorol Okinawa, sydd dan fygythiad.

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Okinawa...**
Yn ddelfrydol, bydden i ar y môr gyda`r wawr yn syrffio neu'n canŵio cyn i`r gwynt ddechrau codi. Wedyn, ymlacio yn yr haul ar un o`r traethau hyfryd sy ma. Yna snorclo dros y coral yn ystod y prynhawn ac yn casglu bwyd o`r môr; efallai pysgota hefyd, er mwyn taflu rhwybeth ar y bbq ar gyfer pryd bwyd gyda theulu a ffrindiau fin nos. Wrth snorclo dwi`n casglu *sazae*, sef malwod y môr, ac weithiau octopws. Ond rhaid bod yn ofalus gan bod rhai o`r pysgod yn wenwynig, fel y chwyddbysgodyn *fugu*, wnaiff eich lladd chi'n gynt na *cyanide*.

**Pa 3 lle yn eich dinas dramor y bydde chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas honno?**
Mae na gannoedd o ynysoedd hardd o gwmpas Okinawa, felly mi faswn i`n awgrymu iddyn nhw ymweld â'r rheiny i ymlacio'n llwyr, a chael cipolwg ar yr hen Okinawa gynt. Bydde rhaid cael pryd mewn *izakaya* da, sef tafarn fwyd ag awyrgylch dda. Mae yma hefyd *aquarium* enfawr – Churaumi (sy'n golygu 'môr prydferth' yn yr iaith Uchinaguchi) – a sîn deifio *scuba* gwych, heb sôn am fan geni'r crefft ymladd *Karate*. Ond ble bynnag yn Okinawa yr ewch chi, yr Okinawanwyr croesawgar sy`n sefyll mas; mae nhw`n bobl ffein iawn a phob un yn gymeriad.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yn eich dinas dramor?**
Mae ateb hynny'n hawdd! Wnaeth un o'n ffrindiau i ddal cimwch - *crayfish* - mawr o`r môr. Fel sy'n draddodiadol yma, fe'i dorrwyd yn ei hanner tra roedd e dal yn fyw, er mwyn ei fwyta`n syth. Trueni dros yr hen *crayfish*, ond roedd ei gnawd yn flasus tu hwnt.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**
O gopa ynys Ohgami ym Miyako, yn dishgwl lawr yn syth i wely'r môr. Mae'n anodd credu y gallai`r môr fod mor glir ac amryliw.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**
Fy nheulu a fy ffrindiau, bwyta cyris blasus ac yfed cwrw da!




---

## RHODDION HAEL

Cawsom ymateb ardderchog i'n hapêl yn rhifyn Mawrth o'r Dinesydd. Bydd y rhoddion hyn yn gymorth mawr i ni barhau i geisio cynnal safon ein Papur Bro.

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i'r cymdeithasau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Clwb Rygbi CRICC Caerdydd Cyf. | £100 | Cwmni Dawns Werin Caerdydd | £100 |
| Craft Folk, Dinas Powys | £250 | Cylch Cinio Merched Caerdydd | £100 |

Hefyd, wrth danysgrifio o'r newydd, mae nifer o'n cefnogwyr ffyddlon wedi ychwanegu rhodd bersonol. Gwerthfawrogir hyn yn fawr.

*Huw Roberts, Trysorydd y Dinesydd*

# Y DIGWYDDIADUR

## Ebrill

**Mawrth, 10 Ebrill**

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gyda'r awdur Ioan Kidd, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 11 Ebrill**

Merched y Wawr, Bro Radur. Noson y Dysgwyr yng ngofal Eirian Dafydd. Cynhelir y cyfarfod yn neuadd Eglwys y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i ddysgwyr gwrywaidd a benywaidd.

**Iau, 12 Ebrill**

Cyngerdd gydag Emyr Roberts (Rhiwbeina) a'i deulu. Bydd Emyr (piano), Elen (bas dwbl), Hannah (fiola) a Catrin (sacsoffon) yn cyflwyno eitemau unigol ac ensemble. Mae Elen a Hannah yn astudio yn yr Academi Frenhinol yn Llundain ac mae Catrin ym Mlwyddyn 10 yn Ysgol Glantaf. Am 7.00pm yng Nghapel Beulah, Rhiwbina. Tocynnau: £10, yn cynnwys gwydraid o win. Yr elw at Bwyllgor Apêl Rhiwbina a Llanisien, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Lois ar 07792-559730.

**Sadwrn, 14 Ebrill**

Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer y rheini sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg. Am 11.00am bydd Amanda Griffiths yn trafod pryddest fuddugol Eisteddfod Genedlaethol 2017. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4DX. Croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**Llun, 16 Ebrill**

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Taith i'r Bathdy yn Llantrisant.

**Mawrth, 17 Ebrill**

Cymrodorion y Barri. Sgwrs am waith Menter Iaith Bro Morgannwg gyda Ffion Rhisiart, yn festri'r Tabernacl, Sgwâr y Brenin, Y Barri, am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 17 Ebrill**

Theatr Genedlaethol Cymru ar y cyd â Pontio yn cyflwyno 'Nyrsys' gan Bethan Marlow, yn Stiwdio Weston yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 8.00pm. Tocynnau: £5. Manylion pellach: 029-2063-6464.

**Mercher, 18 Ebrill**

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Prynhawn o gerddoriaeth gan fyfyrwyr Academi Llais Rhyngwladol Cymru ('Live Music Now'), yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 18 Ebrill**

Theatr Genedlaethol Cymru, mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru, yn cyflwyno 'Dwy', sef darlleniad cyhoeddus o ddwy ddrama a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: 'Ansh' gan Lois Llywelyn Williams (2016) a 'Lôn Terfyn' gan Mared Llywelyn Williams (2017). Yn Stiwdio Weston yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 8.00pm. Tocynnau: £5. Manylion pellach: 029-2063-6464.

**Iau, 19 Ebrill**

Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gŵr gwadd: Huw Llywelyn Davies. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Carys Tudor Williams (07958-265215 neu glyn.carys@btinternet.com).

**Gwener, 20 Ebrill**

Cerddi a Pheint gyda Heather Jones, Iolo a Gwyndaf, Delwyn Siôn, Derec Brown ac Eiry Palfrey, yng Nghlwb Earl Haig, Yr Eglwys Newydd, am 7.30pm. I godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Manylion pellach: 07954-146069.

**Sadwrn, 21 Ebrill**

Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.

**Sadwrn, 21 Ebrill**

Y Tabernacl, Yr Ais. Datganiad organ gan Christopher Enston am 12.30pm. Mynediad am ddim. Casgliad tawel ar y diwedd.

**Mawrth, 24 Ebrill**

Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Fe'i traddodir gan Dr Cathryn A. Charnell-White (Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth) ar y testun '"Cadair Farddes Sir Fynwy": Florence Jones a'r Canu gan Ferched', yn Ystafell 2.03, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 6.15pm, gyda derbyniad gwin cyn y ddarlith am 5.30pm yn Ystafell 1.69. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 25 Ebrill**

Cymdeithas y Beibl. Gwasanaeth, ffair a noson goffi yn y Tabernacl ar yr Ais am 7.00pm.Tocynnau: £1. I annerch: Parch, Denzil John.

**Sadwrn, 28 Ebrill**

Ysgol Fore Carnhuanawc yn yr Hen Lyfrgell ar yr Ais rhwng 10.00am ac 1.20pm. Cofrestru am 9.45am. Tâl cofrestru: £5. Siaradwyr: Dr Neville Evans ('Gwyddonwyr Cymru'), Dr Elin Jones ('Agor y Llifddorau: Hanes Deddf 1918') a'r Athro Bill Jones ('Llythyr o America: Ymfudwyr o Gymru a'u Gohebiaeth yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg'). Manylion pellach: alanjobbins0@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 28 Ebrill**

Pwyllgor Apêl Rhiwbeina a Llanisien, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Ymunwch â ni am de prynhawn yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 2.30 pm. Tocynnau: £15. Yr elw at y Pwyllgor Apêl. Cysylltwch â Lois ar 07792-559730.

**Sadwrn, 28 Ebrill**

Cyngerdd lansio CD newydd Côrdydd, yng nghwmni Côr Ieuenctid Môn, yn Eglwys Ioan Fedyddiwr (St John the Baptist), Yr Ais, Caerdydd, CF10 1GJ, am 7.00pm. Yr elw er budd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Tocynnau: £16/£10. Mae tocynnau ar gael ar www.cordydd.eventbrite.co.uk.

**Sadwrn, 28 Ebrill**

Cabarela. Noson o gomedi drwy gân, gan gynnwys harmonïau unigryw'r tair chwaer Sorela, y frenhines Maggi Noggi, y digrifwr cerddorol Hywel Pitts a doniau eclectig Divas a Diceds. Yn Ffresh, Canolfan Mileniwm Cymru, am 9.00pm. Tocynnau: £15. Manylion pellach: 029-2063-6464.

## Mai

**Mercher, 2 Mai**

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Brethyn Cartref' gan yr aelodau, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 2 Mai**

Merched y Wawr, Bro Radur. Brethyn Cartref a'r Cyfarfod Blynyddol. Cynhelir y cyfarfod yn neuadd Eglws y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 8 Mai**

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Cyfarfod Blynyddol a Noson Dysgwyr, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso.

**Sadwrn, 12 Mai**

Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer y rheini sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg. Am 11.00am bydd sgwrs gan Dr Phil Ellis ar y testun 'Y Jôc'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays CF24 4DX. Croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**Llun, Mai 14**

Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yn Jolyons, 10 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30 pm. Gwestai: Sian Eirian Hughes, Cyn-Drefnydd Eisteddfod yr Urdd a Chyn-Gyfarwyddwraig Rhaglenni Plant S4C ('Cyw' a 'Stwnsh'!). Croeso i bawb i ymuno â ni, drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd, Peter Gillard (pagillard@yahoo.com, neu 07859-007406), i archebu lle, o leiaf wythnos o flaen llaw.

**Mercher, 16 Mai**

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Wanwyn i Gwm Rhondda dan arweiniad Cennard Davies.

**Mercher, 16 Mai**

Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, i'w ddilyn â sgwrs gan yr Athro E. Wyn James ar y testun 'Eluned Morgan, Mair ap Iwan a Chaerdydd'. Yn Eglwys Gyfannol Treganna (*Canton Uniting Church*), Heol Ddwyreiniol y Bont-Faen, Treganna, CF5 1LQ, am 7.30pm.

**Gwener, 18 Mai**

Cabaret dwyieithog yng nghwmni Connie Off a gwesteion arbennig, yn Ffresh, Canolfan Mileniwm Cymru, am 9.00pm. Tocynnau: £15. Manylion pellach: 029-2063-6464.

I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 3

## Ffynhonnau Caerdydd

### Robin Gwyndaf

Hyfrydwch arbennig i mi fydd cael rhoi sgwrs yn Eisteddfod Caerdydd eleni (Pabell Cymdeithasau 2, pnawn Mawrth, 7 Awst, 1.30, pm.), ar y testun: 'Ffynhonnau Caerdydd a'r Cyffiniau'. A dyma gais caredig. A wyddoch chi am unrhyw ffynnon yn eich ardal, neu am unrhyw dŷ, neu stryd, sy'n gysylltiedig â ffynnon, boed yr enw yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er enghraifft: Ffynnon Wen (tŷ fferm gynt yn ardal Rhiwbeina), a Heol Wellfield.

Dyma ychydig ffynhonnau yng Nghaerdydd y gwyddom amdanynt. Tybed glywsoch chi am rai o'r ffynhonnau hyn a ffynhonnau eraill? A beth am eu hunion leoliad?

**Ffynnon Sant Dennis**, ger Heol Sant Dennis, Plwyf Llanisien. Cysylltiad â Sant Dennis. Gwella gwynegon a llygaid dolurus. Ffynnon oer iawn, haf a gaeaf.

**Ffynnon Hoba / Ffynnon Hoben / Ffynnon y Moch,** ym Mhlwyf Llanisien.

**Ffynnon y Sgubor / Brynwell / Barnwell**, ym Mhlwyf Lecwydd.

**Ffynnon y Sant / Cyntwel / Saintwell**, ym Mhlwyf Caerau. Ger tŷ o'r un enw.

**Ffynnon Pen-lan**, ar dir Tŷ Gwyn, Plwyf y Rhath. Mewn cae o'r enw Cae'r Ffynnon / Wellfield. Arferid taflu pinnau lawer i'r ffynnon hon, ac yn arbennig ar ddydd Llun y Pasg. Yn y mur ar un ochr i'r ffynnon dywedid fod carreg unwaith ac arni ôl troed Iesu Grist.

**Ffynnon Bren**, ar ochr ogleddol Heol Albany, gyferbyn â phen Heol Claude, Plwyf y Rhath. Fe'i disgrifid gynt fel 'Ffynnon llycid'. Dywedid fod dŵr y ffynnon hon 'fel iâ yn yr Haf ac fel llaeth yn y Gaeaf'.

**Ffynnon Deilo**, ar yr ochr chwith ar y ffordd sy'n arwain i lawr at Gadeirlan Llandaf, rhwng yr Eglwys a'r hen gastell. Cofiwn hefyd am Ffynnon Deilo / Ffynnon yr Ychen ar fferm Llandeilo, Maenclochog, sir Benfro. Arferid yfed y dŵr o'r ffynnon hon o ddarn bychan o benglog y dywedid ei bod yn perthyn i Sant Teilo. Bu'r benglog ar goll am flynyddoedd. Bellach y mae ar gadw yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Diolch o galon am unrhyw sylwadau, i'w hanfon mor fuan ag sydd modd at: Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd, CF5 2AL. Tel. 029 2056 6249. rgwyndaf@sky.com



# Bwytai Merch y Ddinas

*"Mae arwyddair y caffi yn cyfleu'r awyrgylch 'la dolce vita' i'r dim – 'mefus moes mwy'!"*



**Lowri Haf Cooke**

**Caffé Fragolino, Llandaf**

Ar ynys Sicilia mae bwyd yn beth mawr, gyda phawb yn cyfrannu i'r wledd. Ac roedd bwyd yn hollbwysig i deulu Francesco Furci, a ddaeth o Messina i fyw yng Nghaerdydd. Magwyd ei fam ger Llyn Como yng ngogledd yr Eidal, tra roedd ei dad yn heddwas prysur ar yr ynys. Yn fachgen, arferai Francesco weithio mewn bwytai bob haf, cyn treulio cyfnod yn y fyddin yn Palermo. Wedi hynny, croesodd gulfor Messina i'r tir mawr, ac aeth yn gogydd mewn gwersyll ar gyrion Fenis.



Ar ei gwyliau yno yr oedd Ffion, sy'n wreiddiol o'r Wyddgrug, pan syrthiodd y ddau yn glep am ei gilydd. Chwe mis wedi hynny, dilynodd Francesco ei gariad i Gaerdydd, lle cafodd waith mewn bwytai Eidalaidd ledled y ddinas. Yn eu plith, Positano, Mediterraneo, Carluccio's a Stefano's ym Mhontcanna . Athrawes yw Ffion yn Ysgol Bro Edern, ac erbyn hyn mae ganddynt ddau o blant bach. Ymgartrefodd y teulu yn ardal Llandaf, lle bu Francesco yn gweithio yn Gusto Emporio. Pan aeth y deli ar Heol Waungron ar y farchnad y llynedd, penderfynodd Fran a Ffion fynd amdani.



Mae'r deli wedi profi trawsnewid anferthol, gan arwain at gaffi ffres a chyfoes yn Llandaf. Cyfeiria'r enw, Fragolino, at win pefriog blas mefus, a'r un mor felys yw profiad cwsmeriaid y caffi. Ar bob ymweliad gen i, bu'r caffi dymunol dan ei sang, gyda Francesco yn gwneud bob dim yn y gegin agored. Ceir pwyslais, yn naturiol, ar seigiau Sisiliaidd, o'r melysion i'r seigiau sawrus.

Felly, i frecwast, beth am ddilyn esiampl Francesco ei hun, gydag *espresso* – i ddeffro'r meddwl – a phestri blasus? A hithe'n ddydd Gwener y Groglith, doedd dim brys arna i, felly cychwynais â phestri siocled cnau cyll blas *nutella* – fersiwn Francesco o *sfogliatelle* o Napoli. Ceir hefyd jamiau Eidalaidd, gyda bara ffres o'r popty, neu beth am dafell o *focaccia* rhosmari, neu liw betys pinc? Ac mae na rywbeth hynod braf am gaffi sy'n cynnal naws y Nadolig, â *panetonne* gyda phaned ar gynnig trwy'r flwyddyn.

Trodd fy mrecwast yn ginio ysgafn, ar fy niwrnod hamddenol - cyfle perffaith i brofi'r *pizza* a'r *calzone*. Blasais dameidiau o'r *pizza* salami, a'r *calzone* ham Parma - y ddau yn bendant werth eu profi, os am bryd bwyd cyflym. Difyr hefyd yw'r arlwy 'llysieuol' sy'n gwneud defnydd o gawsiau gwahanol, fel yn achos y *calzone* caws *Stracchino* a dail roced. Ffefryn Francesco ei hun yw'r *pizza* madarch porcini, gyda thatws a chaws *Provolone*. Yn goron ar y cyfan, taenir y cyfan ag olew cloron, sy'n troi saig 'bob-dydd' yn bofiad arbennig.




Mae'n werth ystyried fod oriau'r *pasticceria* yn ymestyn ar nos Wener, gan weini bwydlen sydd fymryn yn fwy ffurfiol. Y nosweithiau mwyaf llwyddiannus yw'r rheiny sy'n dathlu bwydydd rhanbarthol – gyda noson Toscana, a Sicilia yn boblogaidd tu hwnt. Ystyriwch blatiad o'r cledd-bysgodyn, neu'r wylys *Parmigiana* – dau ffefryn sy'n gynhenid i'r fam ynys. *Risotto* Francesco yw hoff saig ei wraig – a bobir yn y popty yn hytrach na'i droelli. Ac i bwdin? Y *Salame al Cioccolato* – ie wir, salami siocled! – a dderbyniodd sêl bendith y diweddar Antonio Carluccio. A pheidiwch anghofio blasu'r *cannoli* – pestris melys llawn hufen *ricotta* – a'r *Limoncello*, y ddau yn deillio o Sicilia.

Ond tra mai Francesco sy'n gyfrifol am y fwydlen, a hysbysebir y Gymraeg, chwaeth Ffion yw'r elfen weledol. Mae'r dodrefn lliwiau pastel yn ddeniadol tu hwnt, o flaen y silffoedd llawn danteithion, a cheir cornel llawn llyfrau i'r plant. Mae'r waliau yn cynnig oriel i waith celf lliwiau neon gan yr arlunydd o Forfa Nefyn, Niki Pilkington. Yna mae lliw oren llachar yr *aperitivo* Aperol Spritz yn gweddu i'r dim oddi tanynt. I'w glywed yn gyson mae bwrlwm hel clecs a clincian gwydrau, '*iechyd da*', '*cin cin*' a '*salute*'. Mae arwyddair y caffi yn cyfleu'r awyrgylch *'la dolce vita'* i'r dim – 'mefus moes mwy'!

**Caffé Fragolino, 4 Heol Waungron, Llandaf CF5 2JJ**

***Canllaw Bach Caerdydd*** **gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99**